# Ymatebion i'r Ymgynghoriad Statudol i gau Ysgol Y Berwyn, Ysgol Bro Tegid ac Ysgol Beuno Sant a Sefydlu Campws Ddysgu 3-19 Cyfrwng Cymraeg, statws Cymunedol ar safle bresennol Ysgol Y Berwyn yn Nhref Y Bala

(Cyfnod Ymgynghori Statudol 22 Tachwedd 2017 – 10 Ionawr 2018)

Derbyniwyd 28 ymateb ysgrifenedig yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol.

| | **Sylwadau** | | **Ymateb Cyngor Gwynedd** |
|---|---|---|---|
| **1** | **Cefnogaeth** | | |
| 1.1 | Dymunaf ddatgan fy nghefnogaeth i sefydlu model 2 – sef Ysgol Gymunedol 3-19 oed ar gyfer tref y Bala ar gampws presennol Ysgol y Berwyn. Diolch. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau cadarnhaol ynglŷn a'r model sy'n destun yr ymgynghoriad hwn. |
| 1.2 | Mae dyluniad a chynllun yr ysgol sydd yn ymgorffori ysgol 3-18, agweddau cymunedol ac amrywiol yn un effeithiol dros ben. Fel pennaeth yr ysgol rwyf yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd rwyf wedi eu cael i fynychu'r cyfarfodydd cynnydd (progress meeting) gyda'r rhan ddeiliaid, er fod rhwystredigaeth wedi codi ar adegau ynglŷn a diffyg cyllid i gwblhau rhai agweddau.<br>Mae'r cynnig i agor ysgol "gymunedol" yn symudiad sydd wedi llonyddu'r gymuned bron iawn i gyd. Yn sicr dyma'r fath o ysgol sydd yn adlewyrchu'r gofynion yma yn y Bala | | |
| 1.3 | Cefnogi'r ymgynghoriad a'r pwrpas ar gyfer newid. Mae'r syniad o greu Campws fel hyn wastad wedi bod yn ffordd ymlaen i addysg ym Mhenllyn. Mae Ysgol y Berwyn wedi colli allan ar fuddsoddiadau ariannol dros y blynyddoedd ac mae dirywiad yr adeiladau yn amlwg ers blynyddoedd. Fel cyn-ddisgybl, staff, rhiant, rwy'n hapus fod buddsoddiad yma'n dod i'r ardal. Mae angen buddsoddiad adnoddau yma. | | |
| 1.4 | Falch bod statws ysgol gydol oes (heb statws eglwysig) sy'n adlewyrchu nawr ein cymuned yn cael ei gynnig. | | |
| 1.5 | Hoffwn nodi ein cefnogaeth i'r cynnig diweddaraf i ad-drefnu ysgolion yn nalgylch y Berwyn. Rydym yn gefnogol iawn i'r elfennau Cymunedol a chyfrwng Cymraeg o'r cynnig. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1.6 | Mae'r corff llywodraethol ffederasiwn Cysgod y Foel yn gyffredinol gefnogol i'r cynnig sydd wedi ei gyflwyno gan ddarparu cyfleusterau newydd ar gyfer disgyblion cynradd ardal y Bala, a disgyblion uwchradd y rhanbarth. Cefnogir hefyd y statws cymunedol fydd yn cael ei ddynodi ac edrychir ymlaen i weld y ddarpariaeth newydd mewn lle er lles ein plant a phobl ifanc. | | |
| **2** | **Y broses ymgynghori** | | |
| 2.1 | Rwy'n siomedig fod y broses ymgynghori yn digwydd am y trydydd tro yn y mater yma | | Y prif reswm dros yr oediad gwreiddiol oedd yr effaith ar Awdurdodau yn sgil newid yn null cyllido Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar wahân yn ymwneud ag Ysgol y Parc, er y cydnabyddir ei fod yn ymwneud ag ad-drefnu o fewn yr un dalgylch.<br><br>Yn dilyn cynnal adolygiad o'r cynlluniau ar gyfer y dalgylch, yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror 2015, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd gymeradwyo cynnal ymgynghoriad statudol ar gynnig i gau Ysgol y Berwyn, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Bro Tegid a sefydlu Campws Dysgu 3-19, cyfrwng Cymraeg, Gwirfoddol a Reolir (CWR, Eglwys yng Nghymru) ar safle presennol Ysgol y Berwyn. Yn dilyn cynnal proses statudol lawn i ymgynghori ar y cynnig, yn eu cyfarfod ar 15 Medi 2015, penderfynodd aelodau Cabinet y Cyngor i weithredu ar y cynnig oedd ger bron.<br><br>Yn ddiweddarach, ar 27 Mehefin 2017, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd dynnu'n ôl y cynnig a gymeradwywyd ar 15 Medi 2015 ar y sail y byddai'n afresymol o anodd gweithredu'r cynnig oherwydd diffyg cefnogaeth y llywodraethwyr i'r cynnig presennol i sefydlu Campws Dysgu 3-19, Gwirfoddol a Reolir (CWR, Eglwys yng Nghymru) yn nhref y Bala.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r ymatebion a dderbyniwyd gan gyrff llywodraethu ysgolion y dalgylch i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda hwy ym mis Mawrth 2017, yn ogystal a gohebiaeth gefnogol Esgobaeth Llanelwy wrth benderfynu sut i symud y prosiect yn ei flaen.<br><br>Noder fod y Cyngor hefyd yn siomedig nad oes cynnig wedi ei weithredu yn nalgylch Y Berwyn hyd yma. Mae natur y broses ad-drefnu ysgolion yn golygu fod posib i gynlluniau gael eu haddasu wrth i'r broses fynd rhagddi. Yn ddibynnol ar benderfyniadau nesaf y Cabinet, mae'r Cyngor yn anelu at weithredu'r cynnig arfaethedig erbyn Medi 2019. |
| 2.2 | Mi roedd yr ysgol "newydd" i fod i agor yn 2014 yn wreiddiol ond dyma ni yn 2017 ac yma dal i ...<br>Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys opsiynau nac ydynt yn bosibl rŵan a rwy'n byw mewn gobaith mai hyn fydd yr ymgynghoriad olaf – er lles holl blant yr ardal. Diolch | | |
| 2.3 | Mae'r holl broses (yr ymgynghoriad a'r adeiladu) eisoes wedi bod yn un faith iawn. | | |
| 2.4 | Mae peth rhwystredigaeth fod yr amserlen wedi llithro hyd at 2 flynedd oherwydd y newid categori ond mae'r arhosiad yn dderbyniol gan ystyried y canlyniad. | | |
| 2.5 | Teimlaf fod yr ymgynghori hyn wedi bod llawer rhy hir. Drwy gyfnod addysgol fy mhlentyn sydd erbyn hyn yn gadael mis Mai eleni mae wedi cael profiadau sydd yn anfantais mawr i'w addysg. Cau Ysgol y Parc a wedyn ad-drefnu yr uwchradd. | | |
| 2.6 | Diffyg gohebiaeth ynglŷn a'r datblygiadau diweddaraf. | | Dros y flwyddyn ddiweddaf mae Cyngor Gwynedd wedi cwrdd gyda penaethiaid, cadeiryddion llywodraethwyr ac aelodau etholedig lleol y dalgylch ar sawl achlysur er mwyn trafod a derbyn eu mewnbwn ar y ffordd ymlaen. Yn ogystal, mae llythyrau wedi |

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>eu dosbarthu i rieni, staff a llywodraethwyr yn dilyn penderfyniadau allweddol y Cabinet yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mewn ymgais i ddiweddaru'r rhan ddeiliad o'r datblygiadau blaenllaw.<br>Parthed y gwaith adeiladu, yn ddiweddar, mae newyddlen yn cael ei rhyddhau yn fisol er mwyn diweddaru staff Ysgol y Berwyn ynglŷn a'r gwaith sydd wedi ei gwblhau a'r hyn sydd ar y gweill.</td></tr>
<tr><td>2.7</td><td>Hefyd mae ein cartref ni wedi derbyn 4 copi o pob dogfen – faint mae hyn wedi gostio?</td><td></td><td>Fel rhan o'r ymgynghoriad statudol, mae'n ofynnol ar y cynigiwr, sef Cyngor Gwynedd, sicrhau fod yr holl unigolion a restrir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn derbyn copi o'r ddogfen ymgynghori. Dosbarthwyd copïau caled o'r ddogfen i holl ysgolion y dalgylch er mwyn sicrhau fod rhieni, llywodraethwyr a staff yn derbyn copi.<br>Pwysleisir fod yr ymgynghoriad wedi ei gynnal yn unol a gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru gyda costau priodol ynghlwm a'r gofynion statudol.</td></tr>
<tr><td>2.8</td><td>Mae'r ddogfen hon yn gymhleth i'w darllen ac yn aneglur ei phwrpas. Mae'n ymddangos yn gymysgedd o hen ddata (tud 21 Estyn) sydd bellach yn gamarweiniol, data anghywir (tud 44 7.2 Beuno Sant) sydd yn tanseilio'r gwybodaeth diddorol cyffredinol. Mae'n ymddangos felly, fod y broses hyd at hyn yn ddewisol o rhan ffeithiau ac yn ddiffygiol o ran eglurdeb.</td><td></td><td>Nodwn fod camgymeriad yn y tabl ar tudalen 44 yn fersiwn Saesneg o'r ddogfen ymgynghori. Dyma gopi o'r tabl cywir:
<table>
<tr><th rowspan="3">Ysgol</th><th rowspan="3">Pellter o'r Bala</th><th rowspan="3">Ystod Oedran</th><th rowspan="3">Niferoedd disgyblion Medi 2017</th><th rowspan="3">Capasiti</th><th rowspan="3">Llefydd gweigion</th><th colspan="6">Rhagamcanion</th></tr>
<tr><th colspan="2">2018</th><th colspan="2">2019</th><th colspan="2">2020</th></tr>
<tr><th>Niferoedd disgyblion</th><th>Llefydd gweigion</th><th>Niferoedd disgyblion</th><th>Llefydd gweigion</th><th>Niferoedd disgyblion</th><th>Llefydd gweigion</th></tr>
<tr><td>Pont y Gôf</td><td>52.2</td><td>3 - 11</td><td>113</td><td>122</td><td>9 (7%)</td><td>111</td><td>11 (9%)</td><td>101</td><td>21 (17%)</td><td>98</td><td>24 (20%)</td></tr>
<tr><td>Maesincla</td><td>49.2</td><td>3 - 11</td><td>284</td><td>360</td><td>76 (21%)</td><td>269</td><td>91 (25%)</td><td>271</td><td>89 (25%)</td><td>271</td><td>89 (25%)</td></tr>
<tr><td>Y Faenol</td><td>52.3</td><td>3 - 11</td><td>219</td><td>232</td><td>13 (7%)</td><td>206</td><td>26 (11%)</td><td>206</td><td>26 (11%)</td><td>206</td><td>26 (11%)</td></tr>
<tr><td>Foelgron</td><td>48.9</td><td>3 - 11</td><td>40</td><td>60</td><td>20 (33%)</td><td>42</td><td>18(30%)</td><td>42</td><td>18 (30%)</td><td>45</td><td>15 (25%)</td></tr>
<tr><td>Llandygai</td><td>47.6</td><td>3 - 11</td><td>149</td><td>176</td><td>27 (15%)</td><td>138</td><td>38(22%)</td><td>144</td><td>32 (18%)</td><td>141</td><td>35 (20%)</td></tr>
<tr><td>Llandwrog</td><td>45.6</td><td>3 - 11</td><td>48</td><td>86</td><td>38 (44%)</td><td>42</td><td>44(51%)</td><td>38</td><td>48 (56%)</td><td>32</td><td>54 (63%)</td></tr>
<tr><td>Llanystumdwy</td><td>36.5</td><td>3 - 11</td><td>22</td><td>53</td><td>31 (58%)</td><td>23</td><td>30(57%)</td><td>22</td><td>31 (58%)</td><td>21</td><td>32 (60%)</td></tr>
<tr><td>Tregarth</td><td>45.3</td><td>3 - 11</td><td>115</td><td>181</td><td>66 (36%)</td><td>116</td><td>65(36%)</td><td>112</td><td>69 (38%)</td><td>117</td><td>64 (35%)</td></tr>
<tr><td>Cae Top</td><td>50.7</td><td>3 - 11</td><td>240</td><td>254</td><td>14 (6%)</td><td>240</td><td>14(6%)</td><td>240</td><td>14 (6%)</td><td>240</td><td>14 (6%)</td></tr>
<tr><td>Beuno Sant</td><td>0.0</td><td>3-11</td><td>38</td><td>89</td><td>51 (57%)</td><td>30</td><td>59 (66%)</td><td>27</td><td>62 (69%)</td><td>28</td><td>61 (69%)</td></tr>
</table>
Ffynhonnell: Medi 2017 Data</td></tr>
<tr><td>2.9</td><td>Hoffwn fynegi fy siom a siom llywodraethwyr Ysgol Beuno Sant am y wybodaeth a gyflwynir yn y llyfr ymgynghori parthed Ysgol Beuno Sant. Mae'n seiliedig ar Arolwg Estyn 2014 ac yn rhoi cam-argraff negyddol o'r ysgol. Fel y gwyddoch mae'r staff a'r llywodraethwyr wedi gweithio'n galed iawn ers hynny ac mae'r ysgol bellach wedi gwella'n arw. Ysgol categori melyn ydyw bellach, a chafwyd canmoliaeth gryf, yn enwedig ar arweinyddiaeth yr ysgol, pan ail-ymwelodd Estyn flwyddyn yn ddiweddarach. Nid yw hyn oll yn cael ei adlewyrchu yn y wybodaeth gennych. Mae'n annheg ar yr athrawon a'r rhieni ac yn gamarweiniol. Hoffwn dderbyn ymddiheuriadau cyhoeddus.</td><td></td><td>Mae Cyngor Gwynedd wedi gweithredu yn unol a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion wrth baratoi'r ddogfen ymgynghori. Mae'r Cod yn nodi fod rhaid i'r ddogfen ymgynghori ddarparu "gwybodaeth o adroddiadau diweddaraf Estyn ar gyfer pob ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni". Ceir hyd i'r wybodaeth yma ar dudalen 21 i 24 yn y ddogfen sy'n cyfeirio at ganlyniad yr arolwg Estyn a gynhaliwyd yn 2014. Fodd bynnag, ar tudalen 23, ceir paragraff sy'n nodi fod Ysgol Beuno Sant wedi ei thynnu oddi ar y rhestr o ysgolion sydd angen gwelliant sylweddol yn 2015 yn dilyn ymweliad monitro yn Mehefin 2015.<br>Mae'r ddogfen hefyd yn cyfeirio at Ysgol Beuno Sant fel ysgol sydd wedi ei chategoreiddio'n felyn, yn unol a chanllawiau Llywodraeth Cymru, sef "ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac yn gwybod pa feysydd sydd angen iddi eu gwella".</td></tr>
<tr><td>2.10</td><td>Mae'r ddogfen ymgynghori'n cyfeirio at Ysgol Beuno Sant fel ysgol sydd yn "goch". Mi roedd hyn yn wir dwy flynedd yn ôl ond rŵan mae'r ysgol yn "felyn". Mae'r ddogfen yn cyfeirio at y ffaith hyn yn hwyrach yn y ddogfen ond mae'r cyfeiriad at "goch" yn rhoi darlun anghywir am yr ysgol fel ag y mae hi rŵan ar gwaith caled sylweddol gan y staff.</td><td></td><td>Mae Ysgol Beuno Sant wedi ei chategoreiddio fel ysgol "felyn". Cafodd hynny ei nodi ar tudalen 21 y ddogfen ymgynghori. Gweler isod gopi o'r tabl:</td></tr>
</table>


| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **O.M. Edwards, Bro Tryweryn** ac **Ffridd y Llyn** wedi cael eu categoreiddio'n wyrdd sy'n golygu eu bod yn "ysgol hynod effeithiol sy'n cael ei rhedeg yn dda, gydag arweinyddiaeth gref ac yn glir ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau."<br>Mae **Bro Tegid, Beuno Sant** ac **Y Berwyn** yn cael eu dynodi'n felyn, sef "ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac yn gwybod pa feysydd sydd angen iddi eu gwella" |
| 2.11 | Nodaf nid oes unrhyw ymddiheuriad gan Cyngor Gwynedd na llywodraethwyr Ysgol y Berwyn am eu methiannau wrth ddarparu addysg i blant yr ardal 2017-18 ac am y gorwariant oherwydd y dryswch achoswyd wrth dynnu nol o'r cynllun gwreiddiol. | | Penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd dynnu'n ôl y cynnig a gymeradwywyd ar 15 Medi 2015 ar y sail y byddai'n afresymol o anodd gweithredu'r cynnig oherwydd diffyg cefnogaeth y llywodraethwyr i'r cynnig presennol i sefydlu Campws Dysgu 3-19, Gwirfoddol a Reolir (CWR, Eglwys yng Nghymru) yn nhref y Bala.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r ymatebion a dderbyniwyd gan gyrff llywodraethu ysgolion y dalgylch i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda hwy ym mis Mawrth 2017, yn ogystal a gohebiaeth Esgobaeth Llanelwy wrth benderfynu sut i symud y prosiect yn ei flaen. |
| 2.12 | Hoffwn weld cydnabyddiaeth cyhoeddus am rôl yr Eglwys yng Nghymru wrth ddarparu addysg i blant yr ardal dros y blynyddoedd. | | Fel sy'n cael ei nodi ar dudalen 43 o'r ddogfen ymgynghori, mae Cyngor Gwynedd a'r Eglwys yng Nghymru yn gyd-ddarparwyr addysg yn nalgylch y Berwyn. Mae Ysgol Beuno Sant yn ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir (VA) gyda chymeriad crefyddol (Eglwys yng Nghymru) ac Ysgol y Berwyn, Ysgol Bro Tegid, Ysgol OM Edwards, Ysgol Bro Tryweryn ac Ysgol Ffridd y Llyn yn ysgolion cymunedol.<br>Mae'r Cyngor wedi cynnal trafodaethau rheolaidd gyda cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru ers cychwyn yr ad-drefnu ysgolion yn y dalgylch. |
| 2.13 | Hefyd i gydnabod sut mae'r dryswch diweddar wedi amharu ar y niferoedd yn mynychu Ysgol Beuno Sant yn sgil sut gymaint o rhagfarn cyhoeddus yn erbyn yr Eglwys gan gynnwys ------ a sawl un arall.. | | Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod fod y broses ad-drefnu yn un sy'n cymryd amser ac yn gallu arwain at gyfnod o ansicrwydd. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wireddu cynllun a fydd yn gwella'r ddarpariaeth addysgol yn nalgylch y Berwyn ac i sicrhau unrhyw gymorth i holl ysgolion y dalgylch yn y cyfamser. |
| **3** | **Gwaith adeiladu** | | |
| 3.1 | Ar waetha'r addewid wnaed flynyddoedd yn ôl na fydda'r datblygiad yn amharu ar y disgyblion presennol – yn ddi-os mae'r holl newidiadau/adeiladau yn cael effaith andwyol ar y disgyblion a'r staff fel ei gilydd – llwch, sŵn, toiledau wedi eu blocio, ein hadnoddau yn cael mewn bocsys, diffyg gofod, dim golau – rhestr faith. Rheolau diogelwch?! | | Ers cychwyn y gwaith adeiladu, mae'r Cyngor wedi ceisio strwythuro'r amserlen adeiladu i leihau effaith bosibl ar staff a disgyblion ar gyfer weithrediad dydd i ddydd yr ysgol bresennol.<br><br>Rhaglenwyd i adeiladu y bloc cynradd yn gyntaf fel bod disgyblion yr ysgol uwchradd yn medru cael eu haddysgu yno tra fod gweddill yr adeilad yn cael ei uwchraddio. Fel sy'n wybyddus o'r canrannau llefydd gweigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori, mae nifer o ystafelloedd gwag yn Ysgol y Berwyn, ac mae'r amserlen adeiladau wedi ei strwythuro fel bod modd cymryd mantais llawn o hynny.<br><br>Parthed effaith y gwaith adeiladu ar rediad dydd i ddydd yr ysgol uwchradd, gallwn sicrhau fod y Cyngor, ers cychwyn y gwaith adeiladu, wedi rhoi gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau fod y gwaith yn cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch. |
| 3.2 | Mi ddwedwyd o'r cychwyn na fyddai y gwaith adeiladu yn effeithio addysg y plant. Nid yw hyn wedi bod yn wir. Mae'r adeiladu yn effeithio arnynt yn ddyddiol bellach ac nid oes dim byd yn cael ei wneud – pam bod rhaid iddynt gerdded mewn coridorau llawn llwch pob diwrnod? Pam bod rhaid iddynt orfod cerdded mewn coridorau heb olau? Beth am gael toiledau addas ar ei cyfer? Pam bod rhaid cerdded trwy mwd i ddod mewn i'r ysgol?<br>Beth am sefyllfa y ffreutur – sut yn byd eu bod wedi bod mor hir heb gyfleusterau coginio 'basic'? | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'n amhosib gweithio ar adegau oherwydd y sŵn 'drilio'!..... Ar gyfer y dyfodol – meddyliwch o ddifri am beidio adeiladu ysgol o'r fath eto!! | | |
| 3.3 | Pryder am gyflwr yr adeilada a bod disgwyl i'r staff a'r disgyblion ymdopi o fewn yr amgylchiadau anodd hyn yn ddyddiol a'r cyfleusterau annerbyniol | | |
| 3.4 | Plîs, plîs, plîs peidiwch byth ac adeiladau ysgol newydd ar draws ysgol sy'n weithredol eto. Mae wedi bod yn hafoc o ran llwch, sŵn drilio, anawsterau, bwyd – dim cantîn am fisoedd. Rhaid pacio staff o'r ystafell i gyd a symud mewn llai na 2 wythnos/ yn ogystal a dysgu plant! Roedd cyfyngu ar le symud i'r disgyblion yn amharu ar holl ethos yr ysgol. | | |
| 3.5 | Yr ydym fel staff yn siomedig gyda'r gwaith sydd yn mynd ymlaen ar hyn o bryd yn yr ysgol. Yr wyf yn gwybod mai dros dro ydi'r gwaith, ond mae dwy flynedd yn amser hir. | | |
| 3.6 | Proses adeiladu wedi effeithio yn addysgol ar ddisgyblion presennol – annheg iawn. Diffyg parch at bryderon staff yn ystod y broses hirfaith. | | |
| **4** | **Dyluniad ac adnoddau'r ysgol newydd** | | |
| 4.1 | Hefyd mae'r labordai yn achosi pryder mawr i mi os na fyddent yn cael eu uwchraddio'n sylweddol. Mae'r labordai bresennol yma ers 1964 ac mae lab Cemeg yn enwedig yn wael o ran ansawdd blymio dŵr a nwy.<br>Mae meinciau sydd yn sownd i'r llawr ddim yn galluogi newid ystafell o ... i greu "lle" addas i wahanol gweithgareddau e.e. grwpiau trafod ac ... | | Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i sicrhau bod "amgylchedd dysgu" plant ac athrawon y sir – sef yr ysgol, y dosbarth, yr ystafell staff, y ddarpariaeth chwarae – yn addas ar gyfer darparu addysg yn yr unfed ganrif ar hugain.<br><br>Fel rhan o'r cynllun i fuddsoddi £10.27miliwn i ddatblygu Campws Dysgu 3-19, bydd 2 labordy newydd yn cael eu gosod yn yr ysgol.<br><br>Yn ogystal a hynny, bydd gwariant yn cael ei wneud ar y labordy Cemeg presennol trwy:<br>- uwchraddio'r gwasanaethau i'r meinciau presennol<br>- gosod cwpwrdd mwg newydd<br>- gosod 4 mainc newydd, dwy ochrog, sy'n addas ar gyfer gwneud gwaith grŵp<br><br>Bydd y pedwerydd labordy hefyd yn derbyn uwchraddiad cyffredinol i'r cysylltiadau trydanol.<br><br>Yn ogystal â'r uchod, bydd gwariant sylweddol yn cael ei wneud er mwyn uwchraddio'r ddihangfa dân o'r labordy Cemeg. |
| 4.2 | Beth am labordai Gwyddoniaeth - Pam bod dim arian? Beth am drafod efo staff beth yw eu anghenion y staff sydd yn gweithio yn yr adeilad!! | | |
| 4.3 | "Moderneiddio Addysg"!!!?? Lle mae'r labordai modern?? Nid oes cynlluniau i sefydlu labordai modern, newydd, yr 21ain Ganrif!! Pam? Roedd cynlluniau i sefydlu labordai ar y system "Podiau"!!<br>Erbyn hyn "mae'r arian wedi rhedeg allan" – dyma'r si beth bynnag!! Pam? Lle mae'r arian wedi mynd? Sut mae'n gallu rhedeg allan os oedd o yno yn wreiddiol? Diffyg cynllunio yw'r ateb? Cam – cynllunio yw'r ateb? Hoffwn fynegi fy siom enfawr na fydd labordai newydd sbon yn rhan o'r cynlluniau. | | |
| 4.4 | Fel rhiant sydd a plant yn symud i'r uwchradd yn y dyfodol agos rwy'n bryderus iawn na fydd yr adnoddau a'r cyfleusterau yn cael ei uwchraddio e.e. y labordai, mae rhain yn yr ysgol yma ers ei adeiladu, ac nid oes cynllun ar y gweill i adnewyddu. Mae'n hanfodol bwysig fod yr ysgol gydol oes yn arwain y ffordd drwy gynnig yr adnoddau ar 'r cyfleusterau gorau bosib i blant yr ardal a dyfodol ein cymdeithas | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.5 | Siom enfawr oedd dysgu nad oedd cyllid ar ôl i foderneiddio'r labordai. Gyda gwyddoniaeth yn cael ei hyrwyddo'n genedlaethol ac YyB dal gyda labordai 1960au?? Pa werth addysgiadol yw'r paneli solar – a na fyddai wedi bod yn ddoethach buddsoddi mewn labordai modern a fyddai o fuddi bob disgybl ai cyrhaeddiad | | |
| 4.6 | Pam nad yw labordai Gwyddoniaeth newydd yn cael eu sefydlu yma? Nid yw'r labordai wedi newid dim ers y 1960au. Mae angen adnoddau newydd i'r disgyblion Uwchradd e.e. byrddau, cadeiriau newydd!! A oes toiledau newydd i'r staff (merched!!) | | |
| 4.7 | Rwy'n anhapus iawn fel rhiant hefyd sydd â phlentyn yn dewis TGAU y tro yma nad oes offer/ystafell Gwyddoniaeth newydd. Mewn ysgol Gydol Oes? | | |
| 4.8 | Credaf hefyd y dylai'r labordai gael eu uwch-raddio er mwyn cynnig y profiadau gorau i'n disgyblion. | | |
| 4.9 | Diffyg adnoddau a chyfarpar – mynegi pryder na fydd adnoddau a chyfarpar na dodrefn newydd yn cael eu lleoli yn yr adran/sector uwchradd. | | Yn unol a Chanllawiau Achos busnes y Rhaglen Ysgolion ac Addysg ar gyfer yr 21ain ganrif (Llywodraeth Cymru), nid yw dodrefn a ffitiadau newydd yn cael eu caniatáu fel rhan o wariant cyfalaf ar gyfer ei ailwampio adeiladau, fel sy'n wir am yr elfen uwchradd o'r prosiect yma.<br><br>Mae'r canllawiau hyn hefyd yn nodi mai dim ond os yw'r adnoddau cyfrifiadurol newydd yn rhan o brosiect sy'n cynnwys adeilad o'r newydd y gellid eu cyllido fel rhan o'r buddsoddiad.<br><br>O ganlyniad, ar y pwynt yma, nid oes cyllideb penodol wedi ei glustnodi ar gyfer uwchraddio'r adnoddau technoleg gwybodaeth nac ychwaith i ddodrefnu'r sector uwchradd.<br><br>Wedi dweud hynny, penderfyniad i'r Pennaeth a'r corff llywodraethol fydd sut fydd cyllid yr ysgol newydd yn cael ei ddyrannu a'i wario. Gallent wneud penderfyniad i glustnodi cyfran o'r dyraniad ar gyfer uwchraddio rhai adnoddau penodol megis TG. |
| 4.10 | Rhaid sicrhau cyllid digonol ar gyfer adnoddau i'r ysgol gydol oes – RHAID uwchraddio'r adnoddau e.e. adnoddau tech. gwyb. yn eithriadol brin.<br>Ni fydd yn dderbyniol i blant symud o ysgolion cynradd gydag adnoddau gwych i ysgol heb adnoddau o gwbl. Bydd rhaid uwchraddio er mwyn gallu ymateb i'r Fframwaith Gymhwysedd Digidol a gweledigaeth addysgol ...<br>I wneud hyn rhaid dynodi arian digonol ac ni ddylai ddod o gyllideb hynod brin yr ysgol fel ag y mae. | | |
| 4.11 | Er nad oes gwybodaeth gadarn a chywir ar gael ar hyn o bryd ynglŷn a chyllid, rwy'n pryderu na fydd cyllid ar ôl ar derfyn y prosiect i sicrhau fod adnoddau digonol a newydd ar gyfer y sector uwchradd. Yn yr un modd mae diffyg cyllid i sicrhau gwaith i foderneiddio rhai adrannau yn bosib (ee. Yr adran wyddoniaeth) | | |
| 4.12 | Yr wyf yn bryderus iawn ynglŷn a faint o arian fydd ar gael i sicrhau adnoddau a fydd yn sicrhau llwyddiant i'r disgyblion ddysgu mewn awyrgylch o ysgol yr unfed ganrif ar hugain. Mae ansawdd rhai o ystafelloedd Ysgol y Berwyn yn drychinebus ac wedi dyddio. Credaf y dylai yr holl adeilad gael ei foderneiddio a chynnwys adnoddau megis byrddau, cadeiriau ac adnoddau TGCh. Rhaid i ni roi cyfleoedd gorau i'n disgyblion. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.13 | Cefais ar ddeall nad oes digon o arian i ddodrefnu a rhoi adnoddau diweddar yn yr uwchradd oherwydd na ail greu  y darn yma o'r ysgol sydd yn digwydd. Na dim ysgol hollol newydd fydd yr adeilad sydd yn hollol annheg. Bydd y cynradd a adnoddau gwych a phan ddônt i'r uwchradd fydd yr adnoddau yn hen. Siawns fod y staff a'r plant yn haeddu gwell ar ôl yr holl anfanteision y maent wedi gorfod ymdopi a. | | |
| 4.14 | Ar y cyfan rwy'n gefnogol i'r cynnig a wneir yn y ddogfen ymgynghorol statudol, ond yn bryderus am un agwedd benodol. Yr hyn sy'n fy mhryderu yw'r diffyg manylder am fuddsoddiad mewn adnoddau newydd o fewn yr adeilad, yn enwedig felly'r adnoddau technegol a chyfrifiadurol sy'n hanfodol ar gyfer addysgu disgyblion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Buasai'n dda gen i weld ymrwymiad clir gan y Cyngor bod bwriad i glustnodi arian digonol ar gyfer hynny.<br><br>Gan fod y cynllun yn rhan o Raglen Fuddsoddi Ysgolion yr 21ain Ganrif, Llywodraeth Cymru' dylai'r adnoddau, a'r addysgu, o fewn yr adeilad newydd adlewyrchu hynny.<br><br>Yn fy marn i mae'n bwysig iawn fod y cynllun adnewyddu ac uwchraddio ysgol fel hon yn manteisio ar y cyfle i wneud yn siŵr bod dilyniant yn yr addysgu, yn cynnwys addysg y plant hynny fydd yn dod o ysgolion O.M. Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn. Mae'n hanfodol felly sicrhau nad ydy'r plant sy'n cyrraedd yr ysgol newydd yn cael eu dadrithio o weld nad yw'r adnoddau sydd eu hangen arnynt, ac y maent yn eu defnyddio'n helaeth yn yr ysgol gynradd, ar gael iddynt bellach. | | |
| 4.15 | Mae'n holl bwysig gwneud yn siŵr bod cyllid/buddsoddiad yn cael ei ... adnoddau yr hen Ysgol y Berwyn. | | Mae'r cynllun yn buddsoddi £10.27m i ddatblygu Campws Dysgu 3-19 ar safle presennol Ysgol y Berwyn. Mae hyn yn cynrychioli buddsoddiad sylweddol er mwyn sicrhau ansawdd amgylchedd ddysgu o'r radd flaenaf i ddisgyblion Bala.<br><br>Nodir fod y cynllun yn golygu adeiladu cyfleusterau newydd ar gyfer y sector gynradd ar safle presennol Ysgol  y Berwyn. Ond, yn ychwanegol i hynny, bydd adeilad presennol Ysgol y Berwyn yn cael ei uwchraddio'n sylweddol. Mae'r gwelliannau yn cynnwys:<br>- creu ardaloedd dysgu addas drwy sicrhau ystafelloedd dysgu o faint addas a diweddaru'r cyflwr yn gyffredinol.<br>- creu darpariaeth benodol ar gyfer y chweched dosbarth, yn cynnwys ystafell gyffredin ac ystafell astudio ar wahân.<br>- gwariant ar y labordai.<br>- adnewyddu a gwella'r bloc technoleg. |
| 4.16 | Diffyg cydbwysedd yn y cynllun o ran adnoddau uwchradd  - diffyg cyllid i wella hynny! Colli parch at ymlyniad y cyngor i ddarparu'r addysg orau i blant Penllyn. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae'r rhestr uchod yn ychwanegol i'r gwelliannau a gynllunnir ar gyfer y cyfleusterau cyffredin a'r cyfleusterau a rennir rhwng y cynradd a'r uwchradd megis y stiwdio ddawns a'r dderbynfa. |
| 4.17 | Rwy'n poeni na fydd cyllid ar ôl ar gyfer adnoddau ysgol. Beth yw pwynt cael ystafell ffitrwydd/ddawns newydd heb offer?<br>A fydd y byrddau gwyn rhyngweithiol ymhob dosbarth? Beth am gampfa? Mae ystafelloedd newydd yn edrych yn dda ond oes arian ar ôl i gael byrddau/cadeiriau newydd. Mae rhai yma ers dros 30 o flynyddoedd. Mae safon yr offer TG yn wael. Rydym ni tu ôl i amser gyda'r offer cyfrifiadurol. Nid oes gennym ond 20 o liniaduron ar gyfer 300+ o blant. | | Yn unol a Chanllawiau Achos busnes y Rhaglen Ysgolion ac Addysg ar gyfer yr 21ain ganrif (Llywodraeth Cymru), nid yw dodrefn a ffitiadau newydd yn cael eu caniatáu fel rhan o wariant cyfalaf ar gyfer adeiladau sy'n cael eu ail-wampio, fel yw'r achos gydag elfen uwchradd yr prosiect yma.<br><br>Er hynny, penderfyniad i'r Pennaeth a'r corff llywodraethol fydd sut fydd cyllid yr Ysgol yn cael ei ddyrannu a'i wario. Gallent wneud penderfyniad i glustnodi cyfran o'r dyraniad ar gyfer uwchraddio rhai adnoddau penodol megis TG. |
| 4.18 | Dywedir hefyd yn y ddogfen bod y neuadd am gael ei huwchraddio, ond eto mae'r manylion yn brin. Gwn fod seddi symudol yn bethau drud iawn, ond yn addas iawn ar gyfer neuadd fel ysgol y Berwyn. Ond mae angen buddsoddiad sylweddol hefyd yn adnoddau goleuo a sain y Neuadd (rwyf wedi gweithio ym maes theatr ers ugain mlynedd, felly nid siarad ar fy nghyfer ydw i!) – mae'r offer sydd yno ar hyn o bryd ar y gorau yn aneffeithlon, ac ar ei waethaf yn beryglus ac aneffeithiol.<br><br>Mae'n nodi "Bydd disgyblion, staff a'r cyhoedd yn elwa o'r ardal aml-ddefnydd hon'. Mae'n rhaid iddi fod yn addas ac yn ddiogel i'w defnyddio felly wrth reswm.<br><br>Mae neuadd Ysgol Preseli, Crymych (tebyg i Ysgol y Berwyn mewn sawl ffordd) yn enghraifft dda o neuadd ysgol sy'n cael ei defnyddio at ddibenion ysgol, yn ogystal â'r gymuned a chwmnïau allanol. | | Bydd buddsoddiad o oddeutu £200,000 yn cael ei wneud ar gyfer uwchraddio'r neuadd, er mwyn darparu gofod ar gyfer darlithoedd, gwasanaethau yn ogystal ag adnodd i gefnogi system sinema.<br><br>Mae'r cynllun arfaethedig yn cynnwys gosod yr adnoddau isod:<br>- Seddi y gellir eu tynnu'n ôl<br>- Bariau goleuadau newydd ar y llwyfan perfformio<br>- Seilwaith goleuo lefel isel newydd<br>- Seilwaith sain newydd<br>- Gwaith strwythurol o fewn y gofod i greu ystafell sain / taflunydd gyda storfa cadeiriau. |
| **5** | **Y Cynnig** | | |
| 5.1 | Dylai ysgol newydd ddilyn Model 1 – dim uno ysgolion. Mae rheswm bod gymaint o ysgolion 11-18 yn bodoli. Ateb ariannol nid addysgol yw ysgol 11-18. | | Mae'r Cyngor wedi ystyried ystod o wahanol fodelau cyn penderfynu i gynnal ymgynghoriad statudol ar fodel 2.<br><br>Mae Campws Dysgu yn fodel sy'n cynnig sawl mantais addysgol, gan gynnwys y cyfle i rannu arbenigeddau ar draws y sector gynradd a'r uwchradd. Nid yw model 1, sef y 'status quo' yn cynnig yr un manteision.<br><br>Yn ogystal, fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, nid yw adeiladau ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid nac Ysgol y Berwyn yn y cyflwr gorau nac yn addas ar gyfer dysgu yn yr unfed ganrif ar hugain. |
| 5.2 | Methu deall bod un o'r safleoedd cynradd yn parhau yn endid ar wahân. | | Mae'r Cyngor wedi ystyried nifer o opsiynau posibl wrth ystyried ad-drefnu ysgolion yn nalgylch y Berwyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Fel rhan o'r cynnig bydd Ysgol Bro Tegid ac Ysgol Beuno Sant yn cau, a bydd y ddarpariaeth addysg a ddarperir ganddynt yn cael ei ddarparu yn y Campws Dysgu 3-19. Bydd Ysgol y Berwyn hefyd yn cau, bydd addysg ar gyfer disgyblion o oedran ysgol uwchradd yn cael ei ddarparu yn y Campws Dysgu.<br><br>Fel y nodir yn ddogfen ymgynghori, mae'r ymgynghoriad statudol yn ymwneud ag ysgolion yn nhref y Bala yn unig. Fodd bynnag, mae'r ad-drefnu sy'n digwydd yn nhref y Bala yn rhan o weledigaeth hir dymor Cyngor Gwynedd ar gyfer y dalgylch.<br><br>Mae'r weledigaeth yn ceisio sicrhau bod y tair ysgol wledig, sef Ysgol OM Edwards, Ysgol Bro Tryweryn ac Ysgol Ffridd y Llyn hefyd yn elwa o'r buddsoddiad arfaethedig yn y Bala, ac mae Cyngor Gwynedd felly'n bwriadu sefydlu cydbwyllgor rhwng yr ysgolion gwledig a'r Campws Dysgu.<br><br>Dyma ddarlun o'r weledigaeth ar gyfer y dalgylch:<br> |
| 5.3 | Fel Cadeirydd Gwynedd y Cylch Meithrin mae yn bryderus iawn nad ydyn wedi ystyried lleoliad i gylch meithrin y Bala. | | Rydym fel Cyngor yn ymwybodol fod darpariaeth Cylch Meithrin yn cael ei gynnal ar safle Ysgol Bro Tegid ac yn nodi'r ymatebion perthynol i'r ymgynghoriad statudol.<br><br>Fel sy'n hysbys, mae bwriad i'r ysgol ddarparu addysg i ddisgyblion 3 i 19 oed, ac o ganlyniad, bydd addysg oed dosbarth meithrin yn ran o ddarpariaeth y Campws. Er hynny, o ran darpariaeth y Cylch Meithrin, mae'r Cyngor yn awyddus i drafod posibiliadau gyda chynrychiolwyr perthnasol. |
| 5.4 | Hoffwn i'r ymgynghorwyr ystyried Cylch Meithrin Bala – lleoliad - ar hyn o bryd wedi eu sefydlu ers 45 mlynedd ac yn cwrdd ar gampws Bro Tegid. Mae nifer o blant 3-4 oed yn mynychu Cylch wedi bod yn gyson o 28ain o blant y flwyddyn yn bwydo i'r ddwy ysgol – Ysgol Bro Tegid ac Ysgol Beuno Sant, eleni 16 o blant sydd yn mynychu sydd yn gwymp mawr. O sgwrsio gydag amryw o rieni, mae pryder mawr am leoliad a dyfodol y | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cylch. I gyd fynd ac argymhellion Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 – dylai bod gwell cydweithio a chynnwys y plant o 2 ½ yn y campws Gydol Oes. | | |
| 5.5 | Cynigiaf bydd adeilad Beuno Sant yn cael ei gynnig i'r Cylch Meithrin am ei fod yn ymylol i'r Campws newydd. | | |
| 5.6 | Yn dal yn bryderus am y cyswllt sydd gan y cynradd efo'r uwchradd a bod y ddau yn mynd i wrthdaro ar achlysuron. Hefyd cyd-deithio ar y bysus ysgol. | | Er mai un endid cyfreithiol (un ysgol) fydd y Campws Dysgu, mae dyluniad yr ysgol yn galluogi i segregeiddio'r disgyblion cynradd ac uwchradd. Bydd mynediad a lle chwarae ar wahân ar gyfer y cynradd a'r uwchradd ac er fod bwriad i rannu adnoddau megis y gampfa, y neuadd a'r ffreutur, mae cynllun y safle yn galluogi'r disgyblion cynradd i wneud defnydd o'r cyfleusterau hyn heb gymysgu hefo disgyblion uwchradd. |
| 5.7 | Teimlo nad oes cydbwysedd rhwng y ddarpariaeth ar gyfer y Cynradd a'r Uwchradd. | | |
| 5.8 | Tra'n cydnabod mai dogfen ymgynghori yn ymwneud ac ysgolion y Bala yw hwn, nodir fod cynigion y gorffennol wedi sicrhau buddsoddiad hefyd yn yr ysgolion gwledig fel rhan o weledigaeth fwy eang. Bu gwariant sylweddol yn barod wrth gwrs yn Ysgol OM Edwards. Disgwylir y bydd yr egwyddor hwn yn parhau ac y bydd buddsoddiad hefyd yn ysgolion Bro Tryweryn a Ffridd y Llyn er mwyn sicrhau fod holl ysgolion y dalgylch yn addas ar gyfer y 21ain Ganrif. | | Yn wir, nodwyd yn yr ymgynghoriad yn 2015 y byddai gwariant yn cael ei wneud ar yr ysgolion gwledig sef Ysgol Ffridd y Llyn ac Ysgol Bro Tryweryn er mwyn clirio'r ôl groniad cynnal a chadw. Roedd hyn yn ychwanegol i'r £10.27miliwn o arian cyfalaf a fwriadwyd ei fuddsoddi ar gyfer sefydlu'r Campws Dysgu.<br><br>Ers yr ymgynghoriad yn 2015, mae swm o oddeutu £20,000 wedi ei wario ar Ysgol Bro Tryweryn er mwyn gosod ffenestri newydd. Yn ogystal, fel rhan o raglen cynnal a chadw ysgolion Gwynedd, rhagwelir y bydd gwariant o £150,000 yn cael ei wneud ar Ysgol Ffridd y Llyn, a gwariant o £45,000 ar Ysgol Bro Tryweryn, yn ystod y ddwy flynedd nesaf. |
| **6** | **Materion cyllidol** | | |
| 6.1 | Llwyr obeithio bydd arian a chyllid addas i'r ysgol newydd a bod y safle uwchradd yn elwa o fuddsoddiadau- gan mai uwchraddio sydd yn digwydd yma. Gobeithio bydd cyllid i staffio'r ysgol yn ddigonol a bod yr ysgol yn dilyn esiampl ysgolion eraill ar hyd y wlad fel bod plant yr ardal yn cael y cyfleoedd a'r addysg gorau posib.<br>Diolch. | | Bydd dyraniad y Campws Dysgu yn seiliedig ar y fformiwla dyrannu cyffredinol ar gyfer ysgolion Gwynedd.<br><br>Caiff y fformiwla dyrannu ei seilio ar nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn unol a'r ddeddfwriaeth briodol. |
| **7** | **Materion staffio** | | |
| 7.1 | Ansicrwydd parthed swyddi | | Gan na wneir y penderfyniad terfynol tan ddiwedd y broses statudol ni ellir cynnig arweiniad cadarn ar hyn o bryd ynglŷn a'r trefniadau ar gyfer y broses penodi ar gyfer yr ysgol newydd. Fodd bynnag, pwysleisir fod ymgynghorwyr o'r adran Adnoddau Dynol ar gael i staff ysgolion y dalgylch trwy gydol y broses i'w cefnogi ac i drafod materion yn ymwneud â swyddi.<br><br>Dylid nodi mai penderfyniad i'r corff llywodraethu cysgodol fydd yr union strwythur staffio ac hefyd y broses benodi fydd yn cael ei ddilyn e.e. i benodi'n fewnol neu'n allanol. |
| 7.2 | Mae NASUWT o'r farn y dylai'r Awdurdod ddysgu gwersi yn dilyn y broses o ail-strwythuro dalgylch Dolgellau – yn Arbennig y modd y bu I'r gweithlu gael ei drin.<br><br>I'r perwyl hynny, rydym yn bryderus iawn i ddarllen y sylwadau yn y ddogfen ymgynghori ar dudalennau 39/40 sydd yn crybwyll yn fras sut bydd y gweithlu yn cael ei drin dros y cyfnod trosglwyddo. Mae'n swnio yn bur debyg fod yna ystyriaeth I'r un broses a fu yn Nolgellau. Nodwn fod yr undebau yn gwrthwynebu y math yma o drosglwyddo staff. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ym marn NASUWT, ni ddylai y corff cysgodol hysbysebu unrhyw swyddi yn allanol hyd nes fod y gweithlu presennol wedi cael y cyfle i dderbyn un o'r swyddi.<br><br>Yn fras, dylai'r swyddi newydd yn yr Ysgol arfaethedig gael ei "ringfensho" ar gyfer staff yr Ysgolion presennol. Dylai deiliaid swyddi sydd yn 'run peth neu'n debyg iawn iawn i swyddi yr Ysgol newydd gael eu slotio I mewn I'r swyddi newydd. Dylai deiliaid swyddi sydd yn ymddangos fel swyddi cyfansawdd yn yr Ysgol newydd gael eu ringfensho ar gyfer cyfweliad I'r swyddi hynny. Dylai swyddi newydd newydd – sydd ddim yn bodoli yn yr Ysgolion presennol – fod ar gael I'r staff presennol ymgeisio amdanynt.<br><br>Mae hyn oll yn bwysig oherwydd rheidrwydd cyfreithiol y Cyflogwr I ganfod Swydd Amgen Addas i staff sydd yn wynebu colli swydd. Yn y sefyllfa yma, swyddi'r Ysgol newydd ydy'r Swyddi Amgen Addas. | | |
| **8** | **Arall** | | |
| 8.1 | Wedi dweud hynny oll, mae eisiau dechrau cyfnod pontio 2018-19 yn fuan ac yn gynhwysfawr. Mae cyfrifoldeb mawr ar Gyngor Gwynedd i drefnu'r flwyddyn pontio yn dda er lles plant tref Y Bala a thu hwnt. | | Mae bwriad cynnal trafodaethau lleol pellach gyda'r rhan-ddeiliaid perthnasol i geisio datblygu cynllun pontio ar gyfer ysgolion cynradd y dref. Bydd hyn yn galluogi'r disgyblion cynradd i gael mynediad rheolaidd at yr adnoddau newydd yn ystod y flwyddyn cyn i'r Campws agor yn swyddogol yn Medi 2019 |
| **9** | **Crynodeb o ymateb Estyn** | | |
| 9.1 | Mae'n ymddangos bod y cynnig yn debygol o gynnal safonau addysg yn yr ardal o leiaf, gan y byddai'r datblygiad arfaethedig yn debygol o sefydlu arweinyddiaeth newydd, sefydlog, gyda ffocws ar godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth. | | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi sylwadau Estyn ac yn cytuno bod y cynnig yn gyfle i godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth addysg yn nhref Y Bala. |
| 9.2 | Mae'r cynigiwr wedi darparu rhesymeg glir ar gyfer y cynnig... Mae'n datgan yn rhesymol bod nifer o broblemau'n wynebu'r tair ysgol a allai effeithio ar y gallu i gynnal safonau a phrofiadau addysgol yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys lleoedd dros ben, cyflwr ac addasrwydd safle'r ysgol, yn ogystal â heriau o ran arweinyddiaeth. Mae Estyn yn cytuno a'r farn hon. | | Mae Cyngor Gwynedd yn croesawu'r sylwad. |
| 9.3 | Mae'r cynigiwr wedi darparu tystiolaeth glir i ddangos dewisiadau eraill yn lle'r cynnig presennol hwn, sy'n cynnwys cynnal y sefyllfa bresennol. Maent wedi dangos yn glir fanteision ac anfanteision pob dewis, a'r rhesymau cadarn dros y cynnig a bod manteision yn gorbwyso unrhyw anfanteision. | | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwad. |
| 9.4 | Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth addas i oblygiadau cludiant, ond gan fod Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Bro Tegid yng nghanol tref Y Bala, ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith ar amseroedd teithio presennol... | | Mae Cyngor Gwynedd yn cytuno na fydd y cynnig sy'n destun yr ymgynghoriad yn cael effaith negyddol ar amseroedd a phellteroedd teithio presennol y disgyblion. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ymddengys na fydd y datblygiad arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar amseroedd theithio presennol disgyblion. | | Gan fod Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Bro Tegid wedi eu lleoli yng nghanol tref Y Bala, ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith ar amseroedd teithio presennol.<br><br>Yn ogystal, gan y bydd y ddarpariaeth uwchradd yn aros ar safle Ysgol y Berwyn, sef yr ysgol uwchradd bresennol, ni fydd unrhyw wahaniaeth yn yr amser teithio na phellter i ddisgyblion oedran ysgol uwchradd. |
| 9.5 | Mae'r cynigiwr wedi dangos yn effeithiol y ffordd y bydd nifer y lleoedd gwag yn cael ei heffeithio gan ddarparu'r lleoedd gwag presennol yn Ysgol Beuno Sant (-57%) Ysgol y Berwyn (-55%) ac Ysgol Bro Tegid (+10%). | | O wireddu'r cynnig byddai'r Campws Dysgu yn cael ei sefydlu gyda chapasiti priodol ar gyfer niferoedd disgyblion presennol ac i'r dyfodol. Bydd gan y Campws Dysgu gapasiti o 560 disgybl – 180 cynradd a 380 uwchradd. |
| 9.6 | Mae'r cynigiwr yn dangos bod y Cyngor eisiau gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau ariannol sydd ar gael i ddarparu addysg yn y sir. | | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwad. |
| 9.7 | Mae'r cynigiwr wedi gweithredu'n briodol wrth gynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg, ac mae wedi cyflwyno crynodeb o'r asesiad hwn. | | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwad. |
| 9.8 | Mae crynodeb y cynigiwr o gyflwr ac addasrwydd adeiladau pob un o'r tair ysgol yn gryno a chlir... Mae'n debygol iawn y byddai'r datblygiad arfaethedig yn gwella adnoddau'n sylweddol. | | Mae Cyngor Gwynedd o'r farn y byddai'r buddsoddiad o £10.27m i ddatblygu Campws Dysgu 3-19 yn gwella adnoddau y dalgylch yn sylweddol. |
| 9.9 | Mae'r cynnig yn nodi y bydd y ddarpariaeth newydd yn y categori cyfreithiol cymunedol, sy'n ymddangos yn benderfyniad rhesymol a chytbwys. Mae'n ymddangos bod y cyngor wedi ymgynghori'n eang â'r Eglwys yng Nghymru, llywodraethwyr, rhieni a rhan ddeiliad yn y gymuned. | | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwad. |
| 9.10 | Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i effaith y cynigion ar ansawdd deilliannau, darpariaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth ym mhob un o'r tair ysgol. | | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwad. |
| 9.11 | Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth eithaf da i effaith y cynigon ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth, yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn y tair ysgol yn Y Bala, ynghyd â'r tair ysgol gynradd arall yn yr ardal gyfagos. Mae'r cynigwyr wedi ystyried deiliannau adroddiad arolygiad diweddaraf Estyn. | | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwad. |
| 9.12 | Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr wedi arfarnu perfformiad pob ysgol mewn perthynas â'r System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion. Nid yw crynodeb y cynigiwr o ddeilliannau ar gyfer pob un o'r chwe ysgol yn gwneud cymariaethau á chyfartaledd lleol, cenedlaethol a theulu o ysgolion. Nid yw'r cynigiwr wedi rhoi sylwadau ar gymariaethau ag ysgolion tebyg yn seiliedig ar hawl am brydau ysgol am ddim ac nid yw ychwaith wedi cynnwys data ar gyfer deilliannau'r cyfnod sylfaen ar gyfer pob un o'r ysgolion cynradd. Felly, nid yw'r dadansoddiad na'r sylwadau'n ddigon manwl chwaith. | | Mae Cyngor Gwynedd yn derbyn y sylwad fod angen dadansoddiad manylach o ddata perfformiad ysgolion y dalgylch.<br>Fodd bynnag, ceir hyd i arfarniad o berfformiad ysgolion y dalgylch ar dudalen 21 i 24 yn y ddogfen ymgynghori ac mae'r canfyddiadau wedi ei selio'n bennaf ar adroddiadau estyn diweddaraf yr ysgolion. Yn ogystal a hynny, ar dudalen 21, mae tabl sy'n nodi perfformiad pob ysgol mewn perthynas â'r System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion. Dyma gopi o'r tabl: |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **O.M. Edwards, Bro Tryweryn** ac **Ffridd y Llyn** wedi cael eu categoreiddio'n wyrdd sy'n golygu eu bod yn "ysgol hynod effeithiol sy'n cael ei rhedeg yn dda, gydag arweinyddiaeth gref ac yn glir ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau."<br>Mae **Bro Tegid, Beuno Sant** ac **Y Berwyn** yn cael eu dynodi'n felyn, sef "ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac yn gwybod pa feysydd sydd angen iddi eu gwella" |
| 9.13 | Mae'r cynigiwr yn nodi'n rhesymol y gallai'r ddarpariaeth newydd arwain at gysondeb gwell mewn meintiau dosbarth ac y byddai disgyblion yn fwy tebygol o gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau ag un grŵp blwyddyn oedran. | | Mae Cyngor Gwynedd yn derbyn barn Estyn y galli'r cynnig arwain at gysoni maint dosbarthiadau oedran cynradd disgyblion tref Y Bala, gan alluogi mwy o ddisgyblion i dderbyn addysg mewn grwpiau o faint cyson. |
| 9.14 | Mae'r cynigiwr yn nodi'n briodol y byddai gweledigaeth gyfannol, gydag un sefydliad yn rheoli, cynllunio a darparu addysg ar draws yr ystod oedran, yn arwain at gydlynu a dilyniant gwell yn addysg plant, pe bai'r cynnig presennol yn cael ei roi ar waith. Mae'n rhesymol nodi y byddai'r datblygiad arfaethedig yn debygol i sicrhau arweinyddiaeth newydd a sefydlog, gyda ffocws ar godi safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth. Byddai hyn yn debygol gael effaith gadarnhaol i ddisgyblion allu cael cyswllt á nifer ehangach o staff addysgu sy'n darparu arbenigedd mewn nifer o feysydd cwricwlaidd. | | Mae cyfuno darpariaeth addysgol y dair ysgol bresennol yn y Bala mewn un sefydliad addysg yn cynnig cyfle i wneud gwell defnydd o staff, yn enwedig o ran rheolaeth ac arweinyddiaeth.<br><br>Credwn y gallai Campws Dysgu 3-19 gynnig cyfleoedd newydd o ran y strwythur rheolaethol ac arweinyddiaeth trwy gyfuno'r holl adnoddau yn yr ardal mewn un ysgol. |
| 9.15 | Mae'r cynigiwr wedi cynnal asesiad priodol o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n ystyried effaith y cynnig ar grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rheiny ag anghenion addysgol arbennig... Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr wedi nodi'n ddigon cynnar sut i leihau unrhyw darfu posibl ar ddysgwyr yn y tymor byr. Er enghraifft, nid oes gwybodaeth am effaith debygol ailstrwythuro mewnol yr adeilad yn Ysgol y Berwyn ar gynnal yr ysgol o ddydd i ddydd, nac ar addysg disgyblion. | | Mae'r Cyngor yn derbyn fod y cyfnod hwn o newid yn medru achosi ansefydlogrwydd i'r staff a disgyblion. Er hynny, ers cychwyn y gwaith adeiladu, mae'r Cyngor wedi ceisio strwythuro'r amserlen adeiladu i leihau effaith bosibl ar staff a disgyblion yn nhermau gweithrediad dydd i ddydd yr ysgol bresennol.<br><br>Rhaglenwyd i adeiladu y bloc cynradd yn gyntaf fel bod disgyblion yr ysgol uwchradd yn medru cael eu haddysgu yno tra fod gweddill yr adeilad yn cael ei uwchraddio. Fel sy'n wybyddus o'r canrannau llefydd gweigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori, mae nifer o ystafelloedd gwag yn Ysgol y Berwyn, ac mae'r amserlen adeiladau wedi ei strwythuro fel bod modd cymryd mantais llawn o hynny.<br><br>Parthed effaith y gwaith adeiladu ar rediad dydd i ddydd yr ysgol uwchradd, gallwn sicrhau fod y Cyngor, ers cychwyn y gwaith adeiladu, wedi rhoi gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau fod y gwaith yn cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch. |
| **10** | **Ymateb yr Eglwys yng Nghymru** | | |
| 10.1 | Diolch am y ddogfen rhag ymgynghorol. Mae Cyngor Gwynedd wedi rhoi ystyriaeth ofalus i ddyfodol addysg yn Y Bala a Phenllyn. Rydyn ni'n gwerthfawrogi'r angen am yr ail ymgynghoriad hwn wedi penderfyniad y cabinet i ailystyried dyfodol darpariaeth addysgol yn Y Bala a Phenllyn. | | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.2 | Mae'r ddogfennaeth ymgynghorol yn ailadrodd sefyllfa bresennol holl ysgolion yr ardal a'n cred gadarn ni ydy mai'r plant ydy calon unrhyw ysgol, a'u hanghenion nhw ydy'r ystyriaeth bwysicaf un. Buon ninnau'n ystyried yn ofalus cynnwys y ddogfen wnaethoch chi'i danfon. | | Mae Cyngor Gwynedd yn derbyn y sylwad. |
| 10.3 | Mae Esgobaeth Llanelwy yn ymddiriedolwr i Ysgol Beuno Sant, ond mae cyfrifoldeb dyddiol cynnal yr ysgol yn nwylo'r Llywodraethwyr. Nododd Llywodraethwyr y tair ysgol eu hymateb yn gynharach eleni i'r ymgynghoriad anffurfiol, hynny ydy, eu bod yn dymuno cefnogi cynnig newydd a fyddai'n gweld adeiladau campws cymunedol yn Y Bala. | | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwad. Yn dilyn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda cyrff llywodraethol ysgolion y dalgylch yn mis Mawrth 2017, daeth yn amlwg fod gwrthwynebiad y cyrff llywodraethu i'r statws ac i gydweithio ar y cynllun yn peri risg sylfaenol i lwyddiant y prosiect. |
| 10.4 | Fe fyddai hynny'n golygu diwedd ar unrhyw ddarpariaeth Ysgol Eglwys yn Y Bala a does dim darpariaeth arall tebyg o fewn pellter rhesymol i ddisgyblion ei mynychu. Tra byddai'r Esgobaeth yn ei chael hi'n anodd cefnogi unrhyw gair a fyddai'n symud dewis rhieni o ysgol gyda neu heb gymeriad crefyddol iddi; mae'r llywodraethwyr sefydledig sydd â chyfrifoldeb corfforaethol am yr ysgol wedi nodi eu cefnogaeth i gynnig o'r fath. | | Nodi'r sylwad - mae dynodi categori cyfreithiol ar gyfer y Campws Dysgu yn achosi oblygiadau o ran natur darpariaeth addysgol y dalgylch gyfan. Byddai dynodi'r Campws fel ysgol gymunedol yn cael gwared a'r ddarpariaeth gynradd yr Eglwys yn Nghymru yn yr ardal. I'r gwrthwyneb byddai dynodi'r Campws fel ysgol yr Eglwys yn Nghymru yn dileu darpariaeth ysgolion cynradd ac uwchradd cymunedol yn nhref y Bala.<br><br>Wrth ddynodi categori cyfreithiol ar gyfer y model dewisol, rhoddwyd ystyriaeth i ganlyniad trafodaethau lleol diweddar gyda penaethiaid a chyrff llywodraethol ysgolion y dalgylch (fel y cyfeiriwyd atynt yn adroddiad Cabinet 27 Mehefin 2017), yn ogystal â chanfyddiadau'r asesiad o'r angen am wahanol fathau o ysgolion (2014) a gadarnhaodd mai ansawdd yr addysg gyw'r prif ffactor sy'n cael ei ystyried yn bwysig mewn ysgol.<br><br>Ar sail hynny oll, cynigiwyd, yn nhermau categori cyfreithiol, mai statws 'cymunedol' fyddai'n opsiwn ffafriol ar gyfer cynnal ymgynghoriad statudol. |
| 10.5 | Ein gobaith o'r cychwyn cyntaf oedd y byddai'r ysgol newydd yn rhoi'r cyfleoedd a'r profiadau gorau un i blant Y Bala a Phenllyn. Bu llawer o ddadlau a thrafod ynglŷn a'r ysgol newydd a sut fath o ysgol y byddai hi; ein gweledigaeth ninnau oedd am addysg wedi'i gwreiddio yn niwylliant ac iaith Cymru, ynghyd â'r dreftadaeth sy'n seiliedig ar werthoedd Cristnogol. | | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwad. |
| 10.6 | Fodd bynnag, er gwaethaf bwriadau gorau swyddogion cabinet Cyngor Gwynedd a'r Esgobaeth fel partneriaid yn y prosiect hwn, dydy hi ddim wedi bod yn bosib perswadio Cyrff Llywodraethol y tair ysgol i gefnogi ein cynnig. Gan nad ydyn ninnau'n gynigwyr, rydyn ni wedi'n gadael heb fawr o opsiynau o ran cefnogi a diogelu'r prosiect yma. Os awn rhagddo yn ôl bwriad ein cynllun, fe fyddwn yn bwrw iddi heb gefnogaeth y Cyrff Llywodraethol, opsiwn na fyddai'n gwneud daioni i sefydlogrwydd ysgol newydd. Mae'r Esgobaeth yn cydnabod y gallai gweithredu'r cynigion brofi'n afresymol o anodd ac mae'n rhaid i'r awdurdod bellach | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad, ac yn cytuno mai'r flaenoriaeth yma yw sicrhau darpariaeth addysg o'r radd flaenaf i blant a phobl ifanc dalgylch Y Berwyn. Mae'r Cyngor wedi cynnal trafodaethau rheolaidd gyda cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru ers cychwyn y broses ad-drefnu yn nalgylch Y Berwyn. Fel rhan o'r broses, cynhaliwyd rhag-ymgynghoriad gyda'r Esgobaeth rhwng 31 Awst a 28 Medi 2017 er mwyn derbyn eu sylwadau cychwynnol ar y cynnig newydd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ymgymryd â'r ymgynghoriad statudol newydd hwn. Mae'r cwestiwn yn ariannu hefyd yn codi'i ben. Cymeradwywyd hyn ar gyfer ysgol Eglwys newydd. Fasen ni ddim yn dymuno gweld y prosiect yn colli'r buddsoddiad angenrheidiol hwn mewn ysgol newydd. | | Nodwn fod y gwaith yn mynd rhagddo yn unol a'r amserlen a osodwyd ac rydym yn rhagweld y bydd cyfleusterau newydd, yn dilyn £10.27 miliwn o fuddsoddiad, ar gael i drigolion lleol fanteisio'n llawn o'r adnoddau o fis Medi 2018 ymlaen. |
| 10.7 | Anghenion disgyblion presennol a'r rhai sydd i ddod yn y dyfodol y'n flaenoriaeth i ni; dymunid Esgobaeth Llanelwy ydy cefnogi ffordd ymlaen sy'n diogelu'r buddsoddiad o £10 miliwn ac sy'n rhoi rhwydd hynt i'r ysgol gael ei hagor cyn gynted ag sy bosib er mwyn i blant Y Bala, Penllyn a'r gymuned ehangach allu elwa arni. | | |
| 10.8 | Buon ni'n trafod y mater am yn hir gyda swyddogion Cyngor Gwynedd, aelodau etholedig lleol a Chadeiryddion y Llywodraethwyr ac rydyn ni i gyd yn cytuno y dylen ni weithio gyda'n gilydd i ddod a'r mater hwn i derfyn boddhaol. | | |
| 10.9 | Er mwyn galluogi hyn i ddigwydd, fe wnaiff yr Esgobaeth, mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd, gytuno a chais y Cyrff Llywodraethol a'r gymuned ehangach ynghylch statws y campws dysgu 3-19 newydd. Fe fydd hyn yn caniatáu i'r gwaith adeiladu fynd rhagddo'n ddirwystr, gan ddiogelu'r buddsoddiad yn Y Bala a Phenllyn | | |
| 10.10 | Ein dymuniad ydy gweithio gyda'r holl rhanddeiliaid i greu ysgol sy'n rhoi'r cyfleoedd gorau posib i bob plentyn ddysgu a chyflawni eu llawn botensial. | | |